Dosbarthiadau Meistr Mathemateg Cynradd Sefydliad Brenhinol Kantor yn cael eu Ffrydio'n Fyw i Ysgolion ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6

Gwybodaeth i fyfyrwyr a rhieni

Annwyl Riant/Gofalwr,

Mae eich plentyn wedi cael ei enwebu gan ei athro/athrawes i gymryd rhan mewn Dosbarthiadau Meistr mathemateg Cynradd yn cael ei Ffrydio'n Fyw gan y Sefydliad Brenhinol (Ri) yn rhad ac am ddim.

Mae Dosbarthiadau Meistr Mathemateg Ffrydio'n Fyw yn gyfres o weithdai sy'n cael eu harwain gan selogion mathemateg o'r byd academaidd, diwydiant, ac addysg.

Nod y Dosbarthiadau Meistr yw ysbrydoli pobl ifanc ym mhrydferthwch a rhyfeddod mathemateg a datblygu teimlad o fwynhad yn y pwnc. Maent yn cynnig ymchwiliadau manwl i ddisgyblion o destunau mewn mathemateg y tu hwnt i'r cwricwlwm cynradd arferol. Ein nod yw cynnwys a herio pob myfyriwr: o'r rhai sydd eisoes yn llawn cymhelliant ac yn chwilfrydig am fathemateg i'r rhai sydd newydd ddechrau'r daith honno.

Fformat y sesiwn:

Mae'r gyfres Dosbarth Meistr Ffrydio'n Fyw yn rhedeg:
Cyfres 1: 1:15pm – 2:45pm dydd Mawrth 29 Mawrth; Ebrill 5ed a'r 26ain; 3ydd a 10fed o Fai
Cyfres 2: 9:30yb - 11:00yb Dydd Iau 31ain Mawrth; Ebrill 7fed a'r 28ain; Mai 5ed a'r 12fed
Bydd eich plentyn yn aros yn ei ysgol lle bydd athro yn hwyluso cyfranogiad eich plentyn fel rhan o'r diwrnod ysgol arferol. Bydd cyfranogiad disgyblion yn cael ei wobrwyo gyda thystysgrif ar ddiwedd y gyfres.

Bydd y sesiynau yn cael eu cyflwyno trwy ffrwd fyw gyda nifer o ysgolion yn cymryd rhan yn y gweithdai. Bydd pob grŵp o ddisgyblion yn cymryd rhan yn eu hysgol eu hunain, gyda chefnogaeth aelod o staff yr ysgol.

Bydd y sesiynau ffrydio byw yn cael eu harwain gan selogion mathemateg (arweinydd gweithdai Dosbarth Meistr). Fel arfer byddant yn cynnwys cyfleoedd i drafod, holi a rhannu gwaith ar draws pawb sy'n ymwneud â'r sesiwn, gyda'r holl ryngweithio'n cael ei oruchwylio gan staff yr ysgol.

Bydd disgyblion yn rhannu fideo a sain gyda'r Arweinydd Dosbarth Meistr ac ysgolion eraill yn ystod y sesiynau. Os yw eich plentyn yn dymuno cymryd rhan yn y Dosbarthiadau Meistr ond bod gennych bryderon eu bod yn cael eu cynnwys yn y ffrwd fideo/sain, siaradwch â'u hathro a fydd yn gallu trafod hyn gyda threfnwyr y Dosbarth Meistr.

Sut i gymryd rhan:

Os oes gan eich plentyn ddiddordeb yn y cyfle hwn, a fyddech cystal â llenwi'r ffurflen ganiatâd rhiant/gofalwr sydd ynghlwm i yn gyfan gwbl ac yn ddarllenadwy a'i dychwelyd i'w hathro dosbarth cyn gynted â phosibl/erbyn **18 Mawrth**, gan gadw'r llythyr hwn er gwybodaeth.

Bydd disgwyl i bawb sy'n cymryd rhan gadw at God Ymddygiad Dosbarthiadau Meistr Ar-lein Cynradd Ri (Code of Conduct (https://www.rigb.org/education/masterclasses/get-involved/attending/online-primary-masterclasses-code-of-conduct)

Cofion gorau
Francis Hunt
Cydlynydd Cyfoethogi RhGMBC
fmspwales@swansea.ac.uk